# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gofal Bro Cyf**

**Gofal Bro Cyf**
**Y Deri**
**Ffordd Pwllheli**
**Caernarfon**
**LL55 2YS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Gofal Bro Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Gofal Bro Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gynhaliwyd ers Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal o ansawdd gan staff gofal y maent yn eu hadnabod yn dda. Mae'r staff gofal yn cael cymorth da gan y tîm rheoli. Mae'r tîm rheoli yn annog y staff gofal i rannu syniadau ac i leisio eu barn. Mae system ar waith a gyflwynwyd er mwyn sicrhau bod y gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac y gall y bobl ddewis pa gofal a gânt a phryd. Gwneir buddsoddiadau effeithiol a pharhaus yn y gwasanaeth ac mae trefniadau effeithiol a pharhaus ar waith i'w oruchwylio.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y bobl wrth wraidd y gwaith o gynllunio eu gofal. Rhoddodd y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol adborth cadarnhaol am y gofal a ddarperir. Gwelsom sampl o gynlluniau personol; cofnodion papur yw'r cynlluniau hyn ac maent yn cynnwys gwybodaeth am anghenion y bobl sy'n cael eu hadolygu yn ôl yr angen.

Mae'r bobl yn cael eu hannog a'u helpu i fod mor iach a gweithgar â phosibl. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau mewn perthynas â'r gofal y maent yn ei gael. Ceir cyfathrebu effeithiol a chaiff camau amserol eu cymryd i sicrhau bod y bobl berthnasol, gan gynnwys teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, yn cael eu cynnwys wrth drafod unrhyw faterion sy'n codi a'u bod yn cael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r materion hynny. Mae'r darparwr yn sicrhau bod trefniadau goruchwylio a chyfathrebu effeithiol ar waith mewn perthynas â'r gofal ac anghenion gofal y bobl.

Mae trefniadau diogelu priodol ar waith i sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac y caiff unrhyw risgiau eu lleihau. Mae asesiadau risg unigol ar waith ar gyfer y bobl a chânt eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu rhuthro yn ystod ymweliadau. Maent wedi cael hyfforddiant ar gwympiadau, symud, codi a chario a diogelu ac maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am unigolyn. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio ansawdd y gofal yn dda ac yn sicrhau bod camau diogelu ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Gwelsom sampl o gynlluniau gofal sy'n cael eu hadolygu'n unol â'r amserlen briodol, neu pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae'r cofnodion a welsom yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r bobl, eu teuluoedd, a'r gweithwyr proffesiynol wedi llofnodi a dyddio pob dogfen. Mae hyn yn dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys yn eu hadolygiadau. Mae'r wybodaeth am ofal yn hygyrch i'r staff gofal. Mae'r cofnodion yn dangos bod anghenion gofal unigol y bobl wrth wraidd y gofal a ddarperir a bod y bobl yn cael dewis sut a phryd y caiff y gofal ei roi.

Caiff y bobl eu cefnogi i gysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol pan fydd angen. Gwelsom dystiolaeth o gysylltiadau perthnasol ac amserol â gweithwyr iechyd proffesiynol. Gwelsom drafodaethau yn cael eu cynnal rhwng y staff gofal a'r gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r broses o ddarparu gofal, ac sy'n gysylltiedig ag anghenion gofal y bobl. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw wrthym y ceir cyfathrebu effeithiol ac amserol. Dywedodd y tîm rheoli wrthym fod y staff gofal yn adnabod y bobl yn dda a'u bod yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal gan yr un timau o staff gofal; felly, eu bod yn fwy tebygol o wybod os bydd anghenion gofal yn newid. Caiff y staff gofal eu disgrifio fel staff dibynadwy ac maent yn cymryd camau amserol i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir.

Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl pan fydd angen meddyginiaeth arnynt. Gwelsom fod gweithdrefnau meddyginiaeth y gwasanaeth yn gyfredol, yn glir ac yn hygyrch i'r staff gofal. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant rhoi meddyginiaeth. Mae'r matrics hyfforddiant yn gyson â thystysgrifau hyfforddiant y staff. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus yn rhoi meddyginiaeth. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld bod y staff gofal yn dilyn canllawiau sy'n ymwneud â'r broses feddyginiaeth yn effeithlon ac yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol, yn cael eu hadolygu pan fo angen ac yn hygyrch i'r staff gofal. Mae rhaglen hyfforddiant ar waith i bob aelod o'r staff gofal sy'n gysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos bod y staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol diweddaraf. Maent yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cael arfarniadau blynyddol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o hyfforddiant a chymorth i ymgymryd â'u rôl. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod mwy o amser yn cael ei neilltuo i'r bobl yn ystod ymweliadau os bydd angen. Gwnaethom edrych ar gofnodion digwyddiadau'r gwasanaeth, sy'n gyson â'r cofnodion a ddelir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Gwelsom fod y cofnodion yn drefnus ac yn hygyrch a'u bod yn cael eu monitro. Mae AGC o'r farn bod y gwasanaeth yn llwyddo i gyfathrebu ac i roi gwybod am ddigwyddiadau yn effeithlon pan fo angen.

Mae'r darparwr yn goruchwylio ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli yn casglu adborth gan y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol; gwelsom sampl o ffurflenni adborth wedi'u cwblhau; ar y cyfan, maent yn dangos fod y bobl yn fodlon iawn ar y gofal y maent yn ei dderbyn. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd i drafod diweddariadau ac i alluogi'r staff gofal i rannu eu safbwyntiau ac i leisio eu barn. Mae'r darparwr yn mynd i gyfarfodydd amlddisgyblaethol bob pythefnos i drafod y wybodaeth ddiweddaraf am y gofal y mae'r bobl yn ei gael.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn sefydlog yn ariannol. Mae'n dilyn canllawiau gan y comisiynwyr, mewn perthynas â datblygu dull o ofalu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu y gall y staff gofal gynllunio sut i rannu'r amser gofalu sydd wedi'i neilltuo iddynt. Mae'r staff gofal yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n llawn. Cânt eu rhannu'n dimau bach, sy'n gyfrifol am yr un ardaloedd a'r un bobl. Mae hyn yn golygu bod y staff yn adnabod y bobl yn dda.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/09/2023